| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **17 Gorffennaf 2025** |
| **Aelod Arweiniol** | **Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Pennaeth Gwasanaeth Tai a Chymunedau** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Pennaeth Gwasanaethau Tai a Chymunedau** |
| **Teitl** | **Gwasanaeth Llyfrgell/Siop Un Alwad** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Gwaith y Tasglu Llyfrgelloedd a sefydlwyd i adolygu'r model darparu gwasanaeth i adolygu gostwng oriau agor Llyfrgelloedd/Gwasanaeth Siop Un Alwad ym mis Mehefin 2024.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Galluogi'r Pwyllgor Craffu i ystyried y gwaith ac allbwn Tasglu Llyfrgelloedd Sir Ddinbych a sefydlwyd i fesur effaith lleihau oriau agor y Llyfrgell/Siop Un Alwad ar breswylwyr, cymunedau, a'r awdurdod; ac ystyried cynigion amgen neu ddatrysiadau dan ystyriaeth ar gyfer gwella a/neu ehangu darpariaeth y gwasanaeth wrth symud ymlaen.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y camau gweithredu a'r allbwn hyd yma gan y Tasglu Llyfrgelloedd.

3.2. Bod y Pwyllgor yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw waith arall y Gweithlu Llyfrgelloedd os yw'n parhau ei waith am 12 mis arall.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Cefndir

4.1. Sefydlwyd Tasglu Llyfrgelloedd Sir Ddinbych i fonitro effaith lleihau darpariaeth gwasanaeth y Llyfrgell/Siop Un Alwad yn dilyn gostyngiad i gyllideb graidd.

4.2. Dechreuodd y newidiadau i'r oriau agor ym mis Mehefin 2024, yn dilyn ymgynghoriad helaeth, a'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ym mis Ionawr 2024.

4.3. Cadeiriwyd y Tasglu gan Aelod Arweiniol y Gymraeg a Diwylliant, gan gynnwys Aelod Arweiniol Cydraddoldeb (sydd nawr yn Ddirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Strategaeth Gorfforaethol, Polisi, Cydraddoldeb ac Asedau), a chynrychiolwyr o bob Grŵp Ardal yr Aelodau, Cyngor Tref Rhuddlan ac Unison.

4.4. Mae'r Tasglu wedi cyfarfod 8 o weithiau. Mae'r grŵp wedi ystyried nifer o eitemau, gan gynnwys:

4.4.1. Cyfleoedd i fwy o Gynghorau Tref gyfrannu at Wasanaethau Llyfrgelloedd.

4.4.2. Cyfleoedd ar gyfer cyllid allanol pellach, gan gynnwys gweithgareddau sy'n seiliedig ar brosiect; cyllid y sector preifat (e.e. Banc Barclays, Loceri InPost)

4.4.3. Polisi Ffioedd Llyfrgelloedd ar gyfer argraffu/ffacsio/llogi ystafelloedd, gan arwain at fframwaith ffioedd newydd (Gweler Atodiad 1)

4.5. Mae'r prif ddatblygiadau'n cynnwys:

4.5.1. Mae Cyngor Tref Rhuddlan yn ymestyn eu cyllid i Lyfrgell/Siop Un Alwad Rhuddlan i atal unrhyw ostyngiad i'r oriau agor (£12,000 a £17,000 ychwanegol).

4.5.2. Mae proffilio ariannol i dynnu ymrwymiad benthyg hirdymor ar gyfer Llyfrgell Prestatyn (gostyngiad o £28,837 y flwyddyn)

4.5.3. Cais llwyddiannus gan raglen Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru i uwchraddio Llyfrgell/Siop Un Alwad Corwen i gynnwys cyfleusterau Llyfrgell+ (mynediad i Aelodau'r Llyfrgell tu allan i oriau agor). (£83,469 o grant cyfalaf)

4.5.4. Ceisiadau llwyddiannus eraill am grant i gefnogi gwasanaeth llyfrgelloedd 'gwerth ychwanegol' - e.e. grant Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer Gardd Gymunedol yn Llyfrgell Llanelwy a grant Tesco Stronger Starts ar gyfer gweithgareddau gwyliau'r haf yn Llyfrgelloedd Prestatyn / grant Symiau Gohiriedig ar gyfer gardd synhwyraidd yn Llyfrgell y Rhyl.

4.5.5. Gweithio gyda Dechrau'n Deg i ymestyn darpariaeth sesiynau Amser Rhigwm Dechrau Da i Langollen a Chorwen.

4.5.6. Datblygu 'Cyfeillion Llyfrgell Rhuddlan' fel dull peilot ar gyfer Defnyddwyr Llyfrgelloedd i gyfrannu at gyfeiriad y dyfodol a chyfleoedd cyllid ar gyfer llyfrgelloedd lleol.

4.5.7. Drafft o Strategaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych newydd (Atodiad 2)

4.6. Yn ychwanegol at hyn, ystyriodd y Tasglu effeithiau lleihau oriau agor Llyfrgell/Siop Un Alwad, gan gynnwys: Arolwg Defnyddwyr sy'n Oedolion Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (Atodiad 3), Arolwg Staff sy'n Benodol i Lyfrgelloedd (gweler Atodiad 4; Perfformiad Llyfrgelloedd. Mae'r materion allweddol yn cynnwys:

4.6.1. Roedd dros 94% o'r ymatebwyr yn meddwl bod safonau'r gofal cwsmer yn dda neu'n dda iawn, sy'n dangos faint mae cwsmeriaid y llyfrgell yn gwerthfawrogi staff rheng flaen.

4.6.2. Mae staff wedi cael eu heffeithio'n sylweddol gan y gostyngiad i'r oriau agor, drwy ostyngiad i incwm eu haelwyd, a straen ychwanegol o ddarparu gwasanaethau Llyfrgell/Siop Un Alwad yn ystod llai o oriau a newidiadau gweithredol heriol ar draws y Cyngor.

4.6.3. Mae monitro perfformiad wedi bod yn heriol, wrth i system Rheoli Llyfrgelloedd Cymru gyfan fynd yn fyw ym mis Rhagfyr 2024, gan olygu bod llawer o wybodaeth am berfformiad yn anghywir. O ganlyniad, bydd yn anodd cymharu gostyngiad cyn llyfrgell i gynhyrchiad ôl llyfrgell. Bydd hyn yn destun i adroddiad a fydd yn dod gerbron y Pwyllgor y Craffu yn y dyfodol.

4.7. Yn y cyfamser mae Archwilio wedi cynnal adolygiad o brosiect sydd wedi lleihau oriau agor: bydd canlyniad yr adolygiad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn yr hydref.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae Llyfrgelloedd yn rhan bwysig o ddarparu ein blaenoriaethau corfforaethol, ac yn offeryn allweddol i gyflawni mynediad a chyfleoedd cyfartal, gan helpu'r Cyngor a'r partneriaid i ddarparu eu rhaglen gydraddoldeb.

5.2. Mae Llyfrgelloedd yn cefnogi dull Un Cyngor o weithio drwy gynnal digwyddiadau a gwneud gwybodaeth yn hygyrch i wasanaethau'r Cyngor; maent yn gyfrwng hanfodol ar gyfer sicrhau lefelau uchel o wasanaeth i gwsmeriaid yn ein cymunedau.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Cafodd y gwasanaeth y dasg o wneud arbedion o £360,000 ar gyfer 2024-25 fel rhan o raglen arbedion sylweddol y cyngor. Cyflawnodd y gwasanaeth y rhan fwyaf o'r arbedion yn 2024-25, sef £315,000. Y rheswm dros beidio â chyflawni'r arbedion llawn o £360,000 oedd oherwydd gweithredu'r model newydd yng nghanol y flwyddyn ariannol. Bydd yr arbedion llawn yn cael eu cyflawni ar gyfer 2025-26.

6.2 Mae manylion y camau gweithredu, y mentrau a'r ffrydiau ariannu ychwanegol a gafwyd i ychwanegu gwerth at y gwasanaeth wedi'u hamlygu yn yr adroddiad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les a pha newidiadau sydd wedi, neu a fydd yn cael eu cyflwyno i'r prosiect neu'r ymagwedd o ganlyniad i'r asesiad?

7.1. Cynhaliwyd asesiad o effaith ar les i nodi'r penderfyniad, ac mae wedi nodi gwaith y Tasglu hefyd.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae gwaith y Tasglu wedi cael ei nodi gan yr Arolwg Cwsmeriaid (gweler Atodiad 3) a gan yr Arolwg Staff pwrpasol (gweler Atodiad 4). Mae datblygiad Cyfeillion Llyfrgell Rhuddlan wedi cael ei hwyluso gan ymgysylltiad llwyddiannus gyda Defnyddwyr Llyfrgell Rhuddlan.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'n bositif gweld gymaint o waith a wnaed gan Dasglu Llyfrgell Sir Dinbych, a'r llwyddiant a gyflawnwyd. Yn y pendraw, mae'r llwyddiannau hyn yn ychwanegu gwerth i wasanaeth llyfrgelloedd ar ôl gostwng yr oriau agor. Gan eithrio Rhuddlan a'r Rhyl, hyd yma, nid oedd yn bosib nodi ffynonellau cylchol o gyllid sydd wedi galluogi ymestyn oriau agor llyfrgelloedd.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes newidiadau pellach yn cael eu hargymell yn yr adroddiad hwn. Mae rheoli risg wedi'i fewnosod yn y ddarpariaeth gwasanaeth.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.1 a 7.4.2 yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â datblygu ac adolygu polisi yn ogystal â monitro perfformiad.